Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Local Democracy and Boundary Commission For Wales

# Edrych ar, a newid ardaloedd pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd



Medi 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Adolygiad Canllaw Etholaethau'r Senedd i Adolygiad 2030.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Ffôn:** 029 2046 4819

**E-bost:** ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

**Gwefan:** www.cdffc.llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys


**Amdanom ni** .......... **4**

**Am y canllaw yma** .......... **6**

**Sut fyddwn ni'n edrych ar yr ardaloedd pleidleisio** .......... **8**

**Beth mae'n rhaid i ni ei wneud** .......... **10**

Enwau etholaethau .......... 14

Cymraeg .......... 16

Pethau fyddwn ni ddim yn edrych arnyn nhw .......... 17

**Sut fyddwn ni'n cael barn pobl** .......... **19**

# Amdanom ni



Ni ydy **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**.



Rydyn ni’n grŵp **annibynnol**. Mae hyn yn meddwl nad ydyn ni’n cael ein rheoli gan lywodraeth na phleidiau gwleidyddol.



Ein gwaith ni ydy edrych ar yr ardaloedd pleidleisio ar gyfer etholiadau’r **Senedd**.



Senedd  Cymru ydy’r **Senedd**. Dyma lle mae deddfau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud am Gymru.




Mae pobl Cymru yn pleidleisio dros bwy maen nhw eisiau i redeg y **Senedd.**




Maen nhw’n pleidleisio dros rywun i gynrychioli eu hardal bleidleisio.



Mae ardaloedd pleidleisio yn cael eu galw yn **etholaethau**.

# Am y canllaw yma




Rhaid i ni edrych ar, ac ysgrifennu adroddiad am yr ardaloedd pleidleisio erbyn 1 Rhagfyr 2028.



Mae'n bwysig ein bod ni'n cael barn y bobl sy'n byw ac yn pleidleisio yng Nghymru.




Mae'r canllaw yma yn esbonio beth fyddwn ni'n ei wneud a sut fyddwn ni'n edrych ar yr ardaloedd pleidleisio.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn cefnogi pobl i ddweud beth maen nhw'n feddwl.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn:**



**Cyfeiriad:**
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**Ffôn**: 029 2046 4819



**E-bost**: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru




**Gwefan**: www.cdffc.llyw.cymru



**Mae’r canllaw yma am yr ardaloedd pleidleisio ar gyfer y Senedd yn unig. Dim ardaloedd pleidleisio ar gyfer mathau eraill o etholiadau.**

# Sut fyddwn ni'n edrych ar yr ardaloedd pleidleisio



Fe fyddwn ni'n rhannu ein syniadau ar gyfer yr ardaloedd pleidleisio.




Fe fyddwn ni'n gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am ein syniadau.




Fe fyddwn ni'n rhannu beth mae pobl wedi ei ddweud.



Fe fyddwn ni'n cynnal cyfarfodydd cyhoeddus.



Fe fyddwn ni'n gwneud newidiadau i'n cynlluniau a'n syniadau os oes angen.




Yna fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad terfynol yn dweud:

- beth sydd angen digwydd
- a pha newidiadau fydd yn cael eu gwneud.

# Beth mae'n rhaid i ni ei wneud




Rhaid i ni ddilyn y rheolau mewn deddf o'r enw **Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2013**.




Fe fyddwn ni'n galw hyn yn y **Ddeddf** yn fyr. Mae'r **Ddeddf** yn dweud bod rhaid i ni:




- Enwi'r ardaloedd pleidleisio.

- Trefnu faint o bleidleiswyr sydd ym mhob ardal bleidleisio. Rhaid cydbwyso hyn ar draws Cymru.



- Penderfynnu os ydy pob ardal bleidleisio yn ardal bleidleisio **siroedd** neu **fwrdeistref.**



Mae ardaloedd pleidleisio gyda llawer o gefn gwlad ymhell i ffwrdd o drefi a dinasoedd mawr fel arfer yn **siroedd**.




Mae **bwrdeistrefi** fel arfer yn cynnwys trefi a dinasoedd mawr.




Mae hyn yn helpu i osod rheolau ar gyfer faint o arian mae ymgeiswyr yn gallu ei wario ar ymgyrchoedd.



**Mae angen i ni hefyd feddwl am bethau fel:**




- Ffiniau cynghorau lleol.



- Pethau fel maint, siâp a daearyddiaeth pob ardal bleidleisio. Er enghraifft, os oes mynyddoedd ac afonydd mewn rhai ardaloedd.



- Unrhyw gysylltiadau lleol rhwng ardaloedd. Er enghraifft, yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.



Yn etholiad y Senedd 2026 roedd newidiadau mawr i'r ardaloedd pleidleisio.



Roedden ni'n arfer cael 40 o ardaloedd pleidleisio. Mae gennym ni 16 erbyn hyn.



Mae pob ardal bleidleisio yn cael ei chynrychioli gan 6 aelod o'r Senedd. Sy'n meddwl bod cyfanswm o 96 Aelod o'r Senedd.



Dydyn ni ddim yn gallu newid hyn. Rydyn ni ond yn edrych ar y ffyrdd gorau o ymuno ag ardaloedd ar draws Cymru, i wneud 16 ardal bleidleisio.

# Enwau etholaethau




Rhaid i bob ardal bleidleisio, neu **etholaeth, gael enw.**




Fe fydd yr enw fel arfer yr un fath yn Gymraeg a Saesneg.




Fe fyddwn ni’n edrych ar yr enwau gyda **Chomisiynydd y Gymraeg**.




Rhaid galw pob ardal bleidleisio naill ai yn:

- **Etholaeth y sir.**
- **Etholaeth y fwrdeistref.**



Fe fydd ardaloedd pleidleisio gyda phentrefi a chefn gwlad yn bennaf fel arfer yn **etholaethau sir**.



Fe fydd ardaloedd pleidleisio eraill fel arfer yn **etholaethau bwrdeistref**.



Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth i faint mae ymgeiswyr yn gallu ei wario ar eu hymgyrchoedd ym mhob ardal bleidleisio.



Rhaid i ni ei wneud yn deg. Mae'n gallu costio mwy o arian i gynnal ymgyrchoedd mewn ardaloedd pleidleisio mwy gyda llawer o gefn gwlad.

# Cymraeg




Fe fyddwn ni'n defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.



Rydych chi'n gallu cysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg.



Fe fyddwn ni'n rhannu canllawiau ac adroddiadau yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan.

# Pethau fyddwn ni ddim yn edrych arnyn nhw



**Fyddwn ni ddim yn edrych ar rai pethau. Er enghraifft:**



- Sut mae etholiadau'n gweithio.



- Pwy sy'n cynrychioli pobl.



- Sut mae canlyniadau etholiadau yn y dyfodol yn cael eu heffeithio.




- Codau post a chyfeiriadau.



- Gwasanaethau lleol, ffyrdd ac adeiladau.

# Sut fyddwn ni’n cael barn pobl

## Syniadau cyntaf




Fe fyddwn ni’n rhannu ein syniadau cyntaf am yr ardaloedd pleidleisio ar ein gwefan.




Fe fydd gan bobl 8 wythnos i ddweud wrthyn ni beth maen nhw’n feddwl. Mae hyn yn cael ei alw yn gyfnod ymgynghori **cychwynnol**.



Fe fyddwn ni’n gadael i bobl wybod sut i gael dweud beth maen nhw’n feddwl. A’r dyddiadau ar gyfer rhannu eu barn.




Fe fyddwn ni'n rhannu beth mae pobl yn ei ddweud yn Gymraeg a Saesneg.



Fe fyddwn ni'n gwneud newidiadau i'n syniadau wedi ei seilio ar beth mae pobl yn ei ddweud.

## Syniadau wedi'u diweddaru



Fe fyddwn ni wedyn yn gofyn i bobl ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl am ein syniadau wedi'u diweddaru.




Fe fydd ganddyn nhw 6 wythnos i ymateb. Mae hyn yn cael ei alw yn ail gyfnod ymgynghori.



Fe fyddwn ni hefyd yn cynnal rhwng 2 a 5 cyfarfod cyhoeddus ar draws Cymru.



Rydych chi'n gallu siarad am ein cynllun a'n syniadau. Rydych chi hefyd yn gallu awgrymu syniad gwahanol yn y cyfarfodydd yma.



Fe fyddwn ni'n rhannu gwybodaeth am y cyfarfodydd cyhoeddus. Er enghraifft, ble a phryd y bydd y cyfarfodydd yn digwydd.

## Beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau



Ar ôl cael gwybod beth rydych chi'n feddwl, efallai y byddwn ni'n newid ein cynllun. Efallai y bydd yn newid:

- Ffiniau ardal bleidleisio.
- Enwau ardaloedd pleidleisio.




Os ydy'r cynllun yn newid, fe fydd gan bobl 4 wythnos i ddweud beth maen nhw'n feddwl.


# Penderfyniadau terfynol



Fe fyddwn ni’n edrych ar yr holl safbwyntiau.



Fe fyddwn ni’n rhannu’r beth mae pobl yn ei ddweud. Fe fyddwn ni’n gwneud adroddiad terfynol am beth fydd yn digwydd nesaf.




Fe fydd yr adroddiad yn dangos:

- Enwau’r ardaloedd pleidleisio.
- Ffiniau’r ardaloedd pleidleisio.
- Mapiau o’r ardaloedd pleidleisio.




Fe fydd yr adroddiad yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru cyn 1 Rhagfyr 2028.




Yna fe fydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am wneud beth rydyn ni wedi ei ddweud.

# Cadw eich gwybodaeth yn breifat




Fe fyddwn ni'n diogelu eich gwybodaeth bersonol.




Fe fydd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei dileu cyn cyhoeddi safbwyntiau. Mae hyn yn gallu cynnwys:

- Eich enw.
- Eich cyfeiriad.
- Eich cyfeiriad e-bost.
- Eich rhif ffôn.




I ddarganfod mwy am sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth, edrychwch ar ein gwefan: [cdffc.llyw.cymru/polisi-diogelu-data-phreifatrwydd](cdffc.llyw.cymru/polisi-diogelu-data-phreifatrwydd)



Photosymbols®
Publisher Licence 403527247